# Pwy ydym ni




Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyflogi dros 900 o staff ymroddedig mewn rolau gweithredol a chorfforaethol, gan weithio gyda'i gilydd i greu effaith gadarnhaol yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn helpu i ddiogelu rhanbarth amrywiol a bywiog, sy'n cwmpasu tua 2,400 milltir sgwâr o dirweddau trawiadol sy'n cynnwys arfordiroedd prydferth, trefi hanesyddol, a chopaon garw Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae Gogledd Cymru yn gartref i dros 700,000 o drigolion ac yn croesawu cannoedd o filoedd o ymwelwyr bob blwyddyn, wedi'u denu gan ei diwylliant, ei threftadaeth a'i harddwch naturiol.

Mae ein tîm yn ymateb i tua 108,000 o alwadau bob blwyddyn, gan gynnwys tua 17,000 o ddigwyddiadau brys. Ochr yn ochr â'n hymateb argyfwng, rydym wedi ymrwymo'n ddwfn i atal ac addysg. Mae hyn yn cynnwys ymweld â chartrefi i roi cyngor diogelwch tân, ymgysylltu â phobl ifanc, cydweithio â phartneriaid, a defnyddio cyfryngau traddodiadol a chymdeithasol i lywio a chefnogi ein cymunedau.

Rydym hefyd yn chwarae rhan hanfodol mewn diogelu rhag tân, gan weithio gyda busnesau a sefydliadau lleol i sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau, gan amddiffyn gweithwyr, cwsmeriaid a safleoedd fel ei gilydd.

Mae Gogledd Cymru yn rhanbarth sy'n llawn hanes a diwylliant, lle mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd bob dydd. Fel gwasanaeth, rydym

yn falch o gefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac rydym wedi ymrwymo i adlewyrchu amrywiaeth gyfoethog ein cymunedau. Mae byw a gweithio yma'n golygu mwynhau ansawdd bywyd uchel, gydag ysgolion rhagorol, digwyddiadau diwylliannol bywiog, a mynediad heb ei ail i weithgareddau awyr agored.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn sefydliad proffesiynol a chroesawgar. Rydym yn meithrin diwylliant cefnogol ac yn cynnal ein gwerthoedd craidd, gan osod gwaith tîm, parch ac uniondeb wrth wraidd popeth a wnawn.

I ddysgu mwy amdanom ni, gan gynnwys ein Gwerthoedd Craidd, ewch i'r dudalen nesaf neu edrychwch ar ein gwefan.

# Canllawiau Recriwtio Rheolwr Criw

Mae y canllawiau isod ar gael i helpu ymgeiswyr lenwi y ffurflen gais.

# Manyldeb Person

### Meini Prawf Hanfodol a Dymunol Rheolwr Criw

| **Meini Prawf Hanfodol** |
|---|
| Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn cymwys sydd wedi cwblhau’n llwyddiannus y rheolwr goruchwylio ADC neu’r ymarfer rheoli newydd a phrofion technegol cysylltiedig (neu brofion cyfatebol) |
| Model rôl i eraill trwy ddysgu sgiliau ac ymddygiadau newydd |
| Gwerthfawrogi cydraddoldeb a chynhwysiant ac yn gosod enghraifft gadarnhaol o ymddygiad priodol i gydweithwyr |
| Cynllunio ymlaen a blaenoriaethu gwaith, gan reoli amser yn effeithiol i gyflawni pethau |
| Dangos cymwyseddau gweithredol ar eu lefel bresennol |
| Dod o hyd i gyfleoedd i wella’r ffordd rydyn ni’n gwneud pethau |
| Llysgennad dros y gwasanaeth, cymryd cyfrifoldeb am y gwaith rydyn ni’n ei wneud ac annog eraill i wneud yr un peth |
| Rhaid meddu ar gymhwyster ICL1 (Dyfarniad SFJ Lefel 3 mewn Gorchymyn igwyddiad Cychwynnol mewn Gwasanaethau Tân ac Achub neu gyfwerth) |
| Goruchwyliaeth foddhaol o driliau cyfunol ar yr orsaf (wedi’i gadarnhau gan reolwr llinell). Bydd cyfle i gynnal asesiad drilio cyfunol fel rhan o’r broses ddethol ar gyfer y rhai nad oes ganddynt asesiad cyfredol. |
| Asesiad gorchymyn digwyddiadau boddhaol ar lefel 1 o fewn y 12 mis diwethaf. Bydd cyfle i gynnal asesiad gorchymyn digwyddiadau fel rhan o’r broses ddethol ar gyfer y rhai nad oes ganddynt asesiad cyfoes. |
| Trwydded yrru Brydeinig lawn |

